Ysgol Llanhari

Pennaeth I Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

8fed o Fedi 2023

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Pleser fu croesawu'r holl ddisgyblion i'r ysgol yr wythnos hon a hyfryd nodi bod pawb wedi setlo nôl yn dda ac mae'r disgyblion sy'n newydd i'r meithrin a blwyddyn 7 i weld wrth eu boddau. Mae'n argoeli i fod yn flwyddyn lwyddiannus arall yn Ysgol Llanhari. Mae'r disgyblion wedi ymateb yn wych yn y gwersi er gwaethaf y gwres! Hoffwn eu hannog hefyd i fanteisio ar y cyfleon sydd ar gael iddynt yn y clybiau allgyrsiol niferus a fydd yn cychwyn cyn bo hir. Fel llynedd, os am wybod mwy am hynt a helynt gwaith a gweithgareddau'r ysgol dilynwch ni ar ein cyfrif trydar X ysgol gyfan **@YsgolLlanhari** neu'n cyfrif Instagram **ysgol_llanhari** Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael ar wefan yr ysgol www.llanhari.com.

Ar ddechrau'r tymor, hoffwn dynnu eich sylw at rhai manylion pwysig :

**Staff**
Braf fu croesawu athrawon newydd a staff atodol ar ddechrau mis Medi. Search hyn, o fewn y bythefnos gyntaf, bydd ein gofalwr Mr Rhys Bergamo-Price yn symud i swydd newydd ac un o'n swyddogion gweinyddol Mrs Helen Seviour yn ymddeol. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt a diolchwn yn fawr am eu gwaith dros y blynyddoedd diwethaf.
**Athrawon newydd:** Mr Gary Jones (Arweinydd Pwnc Technoleg Ddigidol) Mrs Lowri Guy (Arweinydd Pwnc Celfyddydau Perfformio) Miss Rachel Williams (Drama) Mme Lise Enjalbert (Ieithoedd Tramor Rhyngwladol)

**Staff Atodol** Mrs Kella Thomas-Thorne (Swyddog gweinyddol cefnogi lles a chynhwysiant) Miss Georgia Richards (Swyddog gweinyddol) Mrs Angharad Ratcliffe (cynorthwydd cynradd) Miss Alys Pritchard (cynorthwydd cynradd)

Os ydych am gysylltu ag unrhyw aelod o staff yna ebostiwch post@llanhari.com os gwelwch yn dda. Hoffwn atgoffa'r rhieni uwchradd i gysylltu â'r dderbynfa yn hytrach na ffonio / anfon neges destun at eich plentyn yn ystod y dydd. Rydym yn disgwyl i'r disgyblion gadw eu ffonau wedi eu diffodd ar waelod y bag a'u denfyddio o dan gyfarwyddyd athro yn unig.

**Safonau uchel**
Ar ddechrau'r tymor atgoffwyd pob un o'r disgyblion am ein gwerthoedd a'n disgwyliadau o ran ymddygiad cadarnhaol, Cymreictod, parch, presenoldeb, ymdrech a dyfalbarhad wrth gwblhau gwaith. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth yn benodol wrth sicrhau safon uchel o ran y wisg ysgol. Mae'r disgwyliadau wedi eu nodi yn glir mewn gohebiaeth flaenorol ac mae'n glir ym mhrosbectws yr ysgol.

**Canlyniadau TGAU a Safon Uwch Haf 2023**
Braf iawn oedd dathlu canlyniadau da iawn eleni eto yn Llanhari, wrth i gynifer o ddisgyblion blwyddyn 13 gyrraedd eu potensial a chael eu haeddiant ar ôl gweithio'n galed yn ystod eu cyfnod yn y chweched dosbarth gan lwyddo yn wyneb heriau ôl-Covid. Roedd 71% o'r holl raddau a enillwyd gan y disgyblion yn raddau A*-C ac rydym yn falch bod 97% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill

graddau A*-E mewn tri neu fwy o bynciau Safon Uwch. Llwyddodd pob disgybl a wnaeth gais, i gael lle i astudio mewn prifysgol.
Roedd y canlyniadau TGAU eleni yn ardderchog a rydym mor falch bod cynifer o ddisgyblion wedi dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Llanhari. Dyma'r criw mwyaf i ddychwelyd i'r chweched dosbarth ers nifer fawr o flynyddoedd ac rydym yn edrych ymlaen at eu gweld yn ffynnu ac yn arwain y disgyblion iau. Testun balchder arbennig yw'r ffaith bod 26.5% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill 5 neu fwy o raddau A*-A ac uchafbwynt arall yw'r ffaith bod 72.5% o'r disgyblion wedi ennill graddau A*-C mewn pum neu fwy o bynciau gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg. Enillodd 87% o'r disgyblion raddau A*-C mewn pum neu fwy o bynciau ac o'r nifer yma enillodd 70% o'r disgyblion o leiaf deg gradd TGAU A*-C. ardderchog lle llwyddodd disgyblion ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu nodau personol, gan amlygu ymroddiad arbennig i'w hastudiaethau

Diolch yn fawr i chi fel rhieni am eich cefnogaeth gyson i'ch plant ac am eich parodrwydd i gyd-weithio â'r athrawon.

**Presenoldeb**

Mae presenoldeb disgyblion Llanhari yn dda iawn a llynedd roedd ein canran presenoldeb ni gyda'r gorau yn Rhondda Cynon Taf. Ar ddechrau'r flwyddyn, hoffwn eich atgoffa mai 95% yw targed yr ysgol ar gyfer presenoldeb. Gofynnir yn garedig i chi beidio â threfnu gwyliau yn ystod y tymor lle'n bosib ac os oes rhaid, ni ddylid gwneud y cais mwy na thri mis ymlaen llaw. Ni fyddwn yn awdurdodi gwyliau os yw presenoldeb eich plentyn yn is na 95% yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

**Adeilad yr ysgol**

Yn dilyn y newyddion diweddar am RAAC, Mae Rhondda Cynon Taf wedi gofyn ifi eich sicrhau bod adeiladau ysgolion y sir yn ddiogel. Ceir mwy o fanylion yn y datganiad yma [Datganiad y Cyngor ar ymchwiliadau o ran concrit RAAC (rctcbc.gov.uk)].

**Calendr y flwyddyn**

Byddwn yn dosbarthu calendr y flwyddyn i chi yr wythnos nesaf ynghyd â chalendr draft o deithiau a chyrsiau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r staff am gynnig yr holl brofiadau i'r disgyblion, eto yn sylweddoli cost cynnig yr ystod hwn i deuluoedd. Gobeithio trwy roi blaen-rybudd, y bydd yn gymorth i bawb gynllunio yn ariannol. Dyma'r prif ddigwyddiadau o fewn y bythefnos nesaf :

- 11-13 Medi Cwrs Preswyl y Chweched dosbarth ym Mhrifysgol Aberystwyth
- 13 Medi Cyfarfodydd cwrdd â'r athro cynradd
- 13 Medi Prynhawn Agored y Dosbarth Meithrin ar gyfer disgyblion Medi 2024
- 18-20 Medi Alldaith Cwrs Dysgu Awyr Agored bl11
- 20-22 Medi Cwrs Preswyl bl5 a 6 i Langrannog
- 21 Medi Taith Gerdded Noddedig blynyddoedd 8, 11 a 12
- 25 Medi Prynhawn Coffi i rieni blwyddyn 6 y clwstwr

Gyda fy nymuniadau gorau i bob aelod o Deulu Llanhari ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd hon,

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth

# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☏ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

8th of September 2023

Dear Parents / Carers

It has been a pleasure to welcome all the pupils to school this week and it is wonderful to note that everyone has settled back well and the pupils who are new to the nursery and year 7 seem to be very happy in school! It promises to be another successful year at Ysgol Llanhari. The pupils have responded enthusiastically in the lessons this week despite the heat! I would like to encourage them to take advantage of the opportunities available to them in the numerous extra-curricular clubs which will start shortly. For more information on the school's classroom and extra-curricular activities follow us on our school twitter X account **@YsgolLlanhari** and our Instagram **ysgol_llanhari**. General information is available on the school's website www.llanhari.com

At the start of the term, I would like to draw your attention to some important details:

**Staff**
It was a pleasure to welcome new teachers and support staff at the beginning of September. However, during the first two weeks, our caretaker Mr Rhys Bergamo-Price will move to a new post and one of our administrative officers Mrs Helen Seviour will retire. We wish them both well and thank them very much for their work over the past few years.
**New teachers**: Mr Gary Jones (Digital Technology Subject Leader) Mrs Lowri Guy (Performing Arts Subject Leader) Miss Rachel Williams (Drama) Mme Lise Enjalbert (International Foreign Languages)

**Support Staff**: Mrs Kella Thomas-Thorne (Wellbeing and inclusion administrative officer) Miss Georgia Richards (Administrative officer) Mrs Angharad Ratcliffe (Learning Support Assistant in the primary department) Miss Alys Pritchard (Learning Support Assistant in the primary department)

If you would like to contact any member of staff then please email post@llanhari.com . I would like to remind the secondary department parents to contact reception rather than calling / texting your child during the day. We expect the pupils to keep their phones switched off at the bottom of the bag and only use them under the guidance of a teacher.

**High standards**
At the beginning of the term all the pupils were reminded of our values and expectations in terms of positive behaviour, Welshness, respect, attendance, effort and perseverance when completing work. We kindly ask for your support with these matters and specifically in ensuring a high standard in terms of the school uniform. The expectations are clearly stated for the secondary pupils in the school prospectus and have been communicated to you as parents on numerous occasions.

**GCSE and A Level results Summer 2023**

We were again able to celebrate a very good set of A Level results this year. We are delighted that 71% of all grades achieved were A*- C grades, with 97% of the pupils attaining three or more A levels at grades A*-E. We are very pleased that all pupils have achieved their potential and that their hard work has been rewarded despite the challenges faced post-Covid. All pupils who applied to university were successful in their applications.

Our GCSE results were excellent too and I am delighted that so many pupils have returned to the sixth form. This is the largest cohort for many years and we look forward to seeing them flourish in school and develop into young leaders. Most notably, 26.5% of the cohort achieved A*-A grades in at least five or more subjects and another highlight is the fact that 72.5% of the pupils achieved at least five A*-C grades including Maths and either Welsh or English. In all, 87% of the cohort achieved 5 A*-C grades and of these, 70% of the pupils attained at least 10 GCSE qualifications at A*-C grades. The school is very proud of all the year 11 pupils as this set of excellent examination results saw pupils across the ability range achieving their goals, reflecting their dedication to their studies.

Thank you very much to you as parents for your constant support for your children and for your willingness to work with the teachers.

**Attendance**

Pupils' attendance at Llanhari is very good and last year our attendance percentage was amongst the best in Rhondda Cynon Taf. At the start of the year, I would like to remind you that the school's target for attendance is 95%. You are kindly asked not to organise holidays during the season where possible and if necessary, the request should not be made more than three months in advance. We will not authorise holidays if your child's attendance is below 95% in the last twelve months.

**The school building**

Following the recent news about RAAC, Rhondda Cynon Taf has asked me to inform you that the county's school buildings are safe. More details can be found in this statement https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Newsroom/PressReleases/2023/September/CouncilstatementonRAACconcreteinvestigations.aspx.

**Calendar**

We will distribute the year's calendar to you next week, along with a draft calendar of trips and residential visits planned for the coming year. We are extremely grateful to the staff for offering all these experiences to the pupils, but also appreciate that the cost to families can be high as there is a wide range of activities on offer. Hopefully by giving advance warning of the cost, it will help families to plan. Here are the main events within the next fortnight:

- 11-13 September Sixth form Residential Course at Aberystwyth University
- 13 September Meet the teacher meetings in the primary department
- 13 September Nursery Class Open Afternoon for September 2024 pupils
- 18-20 September Year 11 Outdoor Learning Expedition
- 20-22 September Residential Course years 5 and 6 to Llangrannog
- 21 September Sponsored Walk years 8, 11 and 12
- 25 September Coffee Afternoon for year 6 parents in the cluster

With my best wishes to all members of Teulu Llanhari at the beginning of this new academic year,

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Headteacher